# Newyddion a Digwyddiadau Lleol: Beth mae tenantiaid yn ei feddwl mewn gwirionedd



*Cyflwyniad*

Mae TPAS Cymru wedi cydnabod bod y ffordd y mae cymunedau a thenantiaid lleol yn derbyn gwybodaeth am wasanaethau lleol a gweithgareddau cymunedol yn newid, gyda symudiad i ffwrdd o ddarllen papurau newydd a chylchlythyrau lleol traddodiadol. Yn ychwanegol, mae canfyddiad bod pobl yn gynyddol yn defnyddio dulliau cyfathrebu digidol a thechnoleg ddigidol newydd i gael gafael ar wasanaethau a dod o hyd i wybodaeth leol. Gyda llawer o landlordiaid cymdeithasol yn awyddus i ddefnyddio dulliau digidol i ddarparu gwybodaeth ac i denantiaid gael gafael ar wasanaethau, roedd gennym ddiddordeb mewn darganfod y canlynol:

- Pa ddulliau y mae tenantiaid yn eu defnyddio i gael gwybod am wybodaeth leol.
- Sut mae tenantiaid yn defnyddio technoleg ddigidol a gwasanaethau ar-lein ac ar gyfer pa ddibenion.

I gael y ddealltwriaeth hon, dosbarthwyd arolwg gennym gan ddefnyddio ein cymuned arolwg Pwls Tenantiaid.

*Y fethodoleg a gytunwyd arni*

1. Pwls Tenantiaid – arolwg ar-lein a thrwy'r post i aelodau Pwls Tenantiaid, ym mis Chwefror 2019. Roedd yr arolwg yn targedu tenantiaid tai cymdeithasol o gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol, yn ogystal â thenantiaid o'r sector rhentu preifat.

*Cwestiynau'r arolwg*

Mae'r cwestiynau safonol a anfonwyd allan yn holiadur yr arolwg i'w gweld yn llawn yn atodiad A. Rhoddwyd cyfle hefyd i denantiaid ychwanegu sylwadau. Cafodd y data hwn ei ddadansoddi ar wahân a gellir dod o hyd iddo drwy gydol dadansoddiad yr adroddiad.

Rhoddwyd cwestiynau amlddewis i'r tenantiaid ar y canlynol:

1) Yn gyntaf, pa fath o denant ydych chi?
2) Ym mha grŵp oedran ydych chi'n perthyn?
3) Sut ydych chi'n dod i wybod am newyddion a digwyddiadau lleol?
   Ticier bob un sy'n berthnasol i chi ac os 'Arall' gellir rhoi gwybod i ni yn y blwch ar y sgrîn nesaf
4) Ydych chi'n darllen y taflenni/posteri sydd ar hysbysfyrddau cymunedol? (h.y. hysbysfyrddau a ddarperir gan y cyngor lleol, mewn siopau lleol, canolfannau cymunedol)
5) Ydych chi wedi methu digwyddiad lleol y buasech wedi hoffi ei fynychu? Pam oedd hynny? (Ticier bob un sy'n berthnasol).
   Os 'Arall' gellir rhoi sylwadau i ni yn y blwch ar y sgrîn nesaf
6) Pa mor aml ydych chi'n gwneud y canlynol?
7) Oes gennych unrhyw un o'r canlynol yn eich cartref?
8) Pa gymorth ydych chi'n ei gael gyda thechnoleg?
9) Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r isod ar-lein?
10) A ydych wedi ymgysylltu â'ch landlord yn ddigidol?
11) Pa ddulliau fyddai'n well gennych gael eich cysylltu â gan eich landlord? Dewiswch gymaint ag sy'n briodol ac ychwanegwch unrhyw "Arall" yn y blwch ar y dudalen nesaf.


*Cyfraddau ymateb*

Yn gyfan gwbl, bu i 252 o denantiaid gwblhau'r arolwg; cyfradd gwblhau o 33%. O'r 252 o ymatebion, roedd 190 o gymdeithasau tai, 34 o awdurdodau lleol, 18 o landlordiaid rhentu preifat a 6 o dai â chymorth.

*Yr wybodaeth a gasglwyd*


Ym mis Mehefin 2019, rhannodd TPAS Cymru ganlyniadau'r arolwg gyda Bwrdd Rheoleiddio Cymru, yn ogystal â’i rannu ar wefan TPAS Cymru fel bod landlordiaid a thenantiaid yn gallu cael gafael arno. Hyrwyddir hyn drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

**1. Pa fath o denant ydych chi?**





**2. Ym mha grŵp oedran ydych chi’n perthyn?**

Yn ôl y disgwyl, yn seiliedig ar ddemograffeg oedran ein cymuned pwls, roedd y gyfran fwyaf o ymatebwyr o oedran gweithio (16-65).




**3. Sut ydych chi'n dod i wybod am newyddion a digwyddiadau lleol?**

Fel y gwelir, cyfryngau cymdeithasol yw'r prif faes i denantiaid i ddarganfod am newyddion a digwyddiadau lleol, yn cael ei ddilyn yn agos gan ffrindiau a theulu. Yn ddiddorol, roedd papurau newydd lleol yn dal i gael eu defnyddio gan 15% o boblogaeth y pwls. Wrth gymharu gwahanol grwpiau oedran, mae'n ymddangos bod pobl iau yn darganfod trwy grwpiau facebook a thrwy ffrindiau a theulu. Dywedodd y grŵp canol oed eu bod yn cael eu gwahodd i ddigwyddiadau drwy facebook neu eu bod yn ymddangos ar eu newyddion. Yn ôl y disgwyl, po hynaf y tenant, y mwyaf o ffocws yr oedd ar bapurau newydd a trwy siarad â phobl yn y siopau a bod ar grwpiau cynrychioliadol tenantiaid eisoes. Nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y math o landlord oedd ganddynt a sut y cawsant y wybodaeth.





**4. Ydych chi'n darllen y taflenni/posteri sydd ar hysbysfyrddau cymunedol? (h.y. hysbysfyrddau a ddarperir gan y cyngor lleol, mewn siopau lleol, canolfannau cymunedol)**

Fel y gwelir o'r siart, mae'r angen am daflenni yn dal i fod yn bwysig cyn belled â'u bod yn 'dal y llygad'. Yn annisgwyl, datgelodd y canlyniadau fod y grwpiau iau o ymatebwyr yn darllen hysbysfyrddau yn fwy na'r grwpiau hŷn. Nododd dau ymatebydd yn y grŵp 16-25 nad ydynt yn gweld hysbysfyrddau o gwmpas yn aml ac felly pan fyddant yn eu gweld, mae ganddynt ddiddordeb. Unwaith eto, nid oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y math o landlord.




**5. Ydych chi wedi methu digwyddiad lleol y buasech wedi hoffi ei fynychu? Pam oedd hynny?**




Mae'r siart hwn yn dangos nad yw 46% o ymatebwyr wedi mynychu digwyddiadau oherwydd nad oeddent yn gwybod amdano neu wedi clywed amdano wedyn. Soniodd rhai ymatebwyr o fewn y grŵp 26-35 a'r grŵp 66-75 am gost cludiant i rai digwyddiadau, yn byw mewn ardaloedd gwledig heb fawr o drafnidiaeth ac i'r rhai llai abl, roeddent yn teimlo eu bod wedi'u heithrio, gan ddweud: “fel pensiynwyr, rydym yn teimlo ein bod wedi'n heithrio o ddigwyddiadau cymdeithasol oherwydd costau na allwn eu fforddio, e.e. taliadau tocynnau i gyngherddau neu ddosbarthiadau. Rhoddodd tenantiaid ALl a thenantiaid CT ffocws ar y ffaith nad oedd digon o rybudd yn cael ei roi, tra’r oedd tenantiaid preifat yn teimlo eu bod fel arfer yn clywed amdano wedyn. Yn ddiddorol iawn, ar gyfer y tenantiaid iau rhwng 16-25 oed, y rheswm dros beidio â mynychu oedd am nad oeddent yn adnabod unrhyw un arall.


**6. Pa mor aml ydych chi’n gwneud y canlynol?**





Y dull mwyaf poblogaidd o ddod o hyd i newyddion oedd trwy wylio newyddion lleol, wedi'i ddilyn yn agos gan gyfryngau cymdeithasol a darllen newyddion lleol ar-lein. Fel y gwelir, nid oedd y gwahaniaeth arwyddocaol yn y dewis o ddull. Yn ôl y disgwyl, roedd y gwahaniaeth yn seiliedig ar oedrannau. Roedd y mwyafrif o bobl 16-25, 34-45 a 46-55 oed, wedi dod o hyd i wybodaeth trwy ddigwyddiadau lleol a chyfryngau cymdeithasol. Roedd oedran 26-35 yr un fath, ond dilynwyd y rhain yn agos gan ddarllen newyddion lleol ar-lein. Roedd y rhan fwyaf o bobl dros 66 mlwydd oed yn gwylio newyddion lleol ar y teledu. Mae hyn yn dangos yr angen i ddefnyddio gwahanol ddulliau yn seiliedig ar oedran.

## 7. Oes gennych unrhyw un o’r canlynol yn eich cartref?

O’r 252 o denantiaid a ymatebodd i’r arolwg hon, mae’r siart yn dangos bod gan 209 ohonynt Wi-Fi y neu gartref**.** Mae hyn wrth gwrs yn gadarnhaol ond mae'n dal i adael 43 o'r ymatebwyr heb fynediad i'r rhyngrwyd ac wrth ehangu hynny i'r boblogaeth sy'n rhentu yng Nghymru, mae'n gadael nifer sylweddol o bobl wedi'u hallgáu'n ddigidol. Mae hyn yn amlygu'r angen i barhau a datblygu'r gwaith o ran cynhwysiant digidol. Yn ogystal â pharhau i ddatblygu papurau newydd lleol gan fod cysylltiad clir rhwng y rheini a oedd yn darllen papurau newydd lleol a'r rhai heb Wi-Fi yn eu heiddo.





## 8. Pa gymorth ydych chi’n ei gael gyda thechnoleg?





Fel y gwelir ar y siart, roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn teimlo'n hyderus wrth osod technoleg eu hunain. Yn ôl y disgwyl, roedd hyn yn amrywio ar draws grwpiau oedran. Roedd 94% o bobl 26-35 oed yn teimlo'n hyderus tra mai dim ond 37% o ymatebwyr ar oedran ymddeol oedd yn teimlo'r un fath. Ni ellir anwybyddu'r ffaith ei bod yn hollol amlwg bod dal nifer uchel o denantiaid angen cymorth, ac mae rhai ohonynt yn gorfod talu am y cymorth hwn. Eto, mae hyn yn amlygu'r angen am barhau a datblygu'r gwaith o ran cynhwysiant digidol.

**9. Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r isod ar-lein?**





Mae tenantiaid yn sicr yn defnyddio gwefannau amrywiol i gael gwybodaeth. Yn ôl y disgwyl, cyfryngau cymdeithasol oedd yr uchaf, wedi'i ddilyn yn agos gan fancio ar-lein a siopa ar-lein. Dim ond 23 o ymatebwyr oedd ddim yn defnyddio unrhyw un o'r platfformau ar-lein, pob un ohonynt dros 66 oed. Ni nodwyd unrhyw wahaniaethau sylweddol ar draws y math o landlord.

**10. A ydych wedi ymgysylltu â'ch landlord yn ddigidol?**




E-bostio landlordiaid oedd y ffurf fwyaf o ymgysylltu digidol a adroddwyd gan denantiaid. Roedd eraill yn defnyddio gwahanol ffyrdd megis defnyddio'r wefan i gael gwybodaeth. O ran rhoi adborth, roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng tenantiaid preifat a thenantiaid tai cymdeithasol. Dim ond 4% o denantiaid preifat wedi cwblhau adborth ar-lein o'i gymharu â 21% yn yr ALl a'r CT, cyfanswm o 106 o ymatebwyr. Roedd gwahaniaeth nodedig hefyd rhwng tenantiaid sy'n defnyddio gwefan eu landlord am wybodaeth. Roedd tenantiaid ALl yn llai tebygol na thenantiaid CT o ddefnyddio'r wefan. O ran gwahaniaethu ar sail oedran, nid oedd 20% o bobl ifanc 16-25 oed erioed wedi ymgysylltu â'u landlord yn ddigidol. Nid yw TPAS Cymru yn gwbl ymwybodol o nifer y landlordiaid cymdeithasol sy'n defnyddio apiau ond mae'r ymchwil hwn yn dangos bod hwn yn faes i'w wella.

**11. Pa ddulliau fyddai'n well gennych gael eich cysylltu â gan eich landlord?**




Fel y gwelir, teimlai dros hanner y tenantiaid a lenwodd yr arolwg hwn y byddai'n well ganddynt gael cyswllt drwy e-bost. Roedd hyn yn gyson ar draws grwpiau oedran, heblaw'r grŵp 66+ a oedd yn well ganddynt gael cyswllt drwy'r post. Cafwyd sylwadau ynghylch bod angen llwybr papur, a dyna pam mai e-bost oedd y dull a ffafrir, ond gallai neges destun fod yn ddigonol hefyd. Roedd neges destun hefyd yn opsiwn a ffafrir ar gyfer unigolion nad oeddent yn gallu codi'r ffôn yn y gwaith. Yn ddiddorol, roedd gwahaniaeth clir mewn canfyddiadau ar draws tenantiaid, gyda rhai yn dweud na fyddent eisiau i'w landlord gysylltu â nhw ac eraill yn pwysleisio eu bod eisiau mwy o gyswllt. Cafwyd sylwadau hefyd ar apiau ffonau clyfar gan y byddent yn croesawu ap i sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn gyflymach.